Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Cil-y-coed**

**Ysgol y Ffin**
**Lôn Dywodlyd**
**Cil-y-coed**
**NP26 4NQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Cil-y-coed

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Cil-y-coed |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Yr arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn, wedi setlo ac yn hyderus i fynegi eu barn. Maent yn gwneud ffrindiau'n hawdd, ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn fawr ac yn dysgu i ddod yn annibynnol.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ac yn dangos dealltwriaeth a pharch tuag atynt. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn sicrhau eu bod yn darparu gweithgareddau ystyrlon a diddorol iddynt. Maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl yn seiliedig ar ddiddordebau'r plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg ar waith ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n dda i ysgogi a chefnogi chwarae a dysgu'r plant. Mae ystod dda o adnoddau ar gael dan do ac yn yr awyr agored i hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant.

Mae'r arweinwyr yn uchel eu cymhelliant ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal plant o ansawdd uchel. Ceir gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae'r person â chyfrifoldeb yn helpu'r staff i wneud eu gwaith yn dda. Mae'r polisïau, y gweithdrefnau, a'r cofnodion gofynnol ar waith. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad a'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Rydym wedi nodi maes i'w wella mewn perthynas â sesiynau goruchwylio ac arfarniadau'r staff.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Gallant ddewis ble i chwarae a beth yr hoffent chwarae ag ef, a chânt ddewis yn rheolaidd a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgaredd ai peidio. Mae'r plant yn mynd at y staff ac yn mynegi eu meddyliau a'u syniadau, gan eu bod yn gwybod bod y staff yn gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi pob ymdrech ganddynt i gyfathrebu. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn dangos diddordeb mewn deinosor a'r staff yn ei annog i dynnu llinell o amgylch traed y deinosor.

Mae'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn awyddus i weld y staff a'u ffrindiau. Mae ganddynt gydberthnasau cynnes a chadarnhaol â'r staff ac maent yn ddigon bodlon mynd atynt am gymorth pan fo angen. Er enghraifft, mae'r plant sy'n ofidus neu'n ei chael hi'n anodd setlo pan fyddant yn cyrraedd yn mynd at y staff i gael cysur, sy'n eu helpu i setlo'n gyflym. Mae’r plant yn hapus yn y lleoliad. Gwelsom fod y plant yn gwenu, yn chwerthin ac yn mwynhau eu hamser yno. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad.

Mae'r plant yn ymddwyn ac yn rhyngweithio'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae'n hapus ar eu pen eu hunain neu gyda'u ffrindiau wrth iddynt ddysgu i rannu a chydweithio. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn barod i rannu adnoddau fel blociau adeiladu a chyfarpar chwarae rôl. Mae'r plant yn parchu ei gilydd a'r adnoddau, gan eu defnyddio'n briodol a helpu i dacluso pan ofynnir iddynt.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd diddorol ac yn cael y rhyddid i archwilio eu hamgylchedd. Mae cydbwysedd da o weithgareddau dan arweiniad plant ac oedolion. Er enghraifft, gwelsom rai o'r plant yn tynnu lluniau'n annibynnol ac eraill yn dewis cymryd rhan mewn gweithgaredd jig-so rhif gydag aelod o'r staff. Caiff y plant eu hannog i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn chwarae am gyfnodau o amser sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da iawn i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn dysgu i wneud pethau drostynt eu hunain, fel arllwys diodydd eu hunain a helpu i weini bwyd yn ystod amser bwyd. Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hanghenion iechyd a hylendid eu hunain, er enghraifft, gwelsom y plant yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl amser byrbryd ac yn brwsio eu dannedd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel, ac maent yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith yn effeithiol. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau diogelu ac o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae'r staff yn cwblhau cofnodion perthnasol mewn perthynas â damweiniau a digwyddiadau yn gywir. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Mae'r staff yn cadw cofrestrau presenoldeb ar eu cyfer nhw ac ar gyfer y plant, ac ar gyfer unrhyw un sy'n ymweld â'r lleoliad. Mae'r wybodaeth am alergeddau unigol yn gyfredol. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth a oedd i'w gweld am anghenion plant unigol yn fanwl. Ar y cyfan, mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae ganddynt weithdrefnau effeithiol ar waith i hybu ffyrdd iach o fyw. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau cyn paratoi bwyd. Maent yn cynnal amgylchedd sy'n hylan, gan olchi'r byrddau, glanhau cwpanau/poteli a brwsio'r lloriau yn rheolaidd. Mae'r byrbrydau a'r prydau sy'n cael eu darparu yn faethlon ac mae'r staff yn cynnig llaeth neu ddŵr i'w yfed.

Mae'r staff yn amyneddgar, yn ofalgar ac yn garedig wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn ymdrin ag unrhyw ymddygiad amhriodol yn gyflym ac yn bwyllog i'w atal rhag gwaethygu. Er enghraifft, gwnaethom glywed y staff yn gofyn mewn ffordd dyner ond cadarn i'r plant gerdded yn hytrach na rhedeg yn yr ardal dan do. Mae'r staff yn canmol y plant yn briodol er mwyn dathlu eu cyflawniadau, gan helpu iddynt deimlo balchder yn yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn siarad yn barchus â'i gilydd ac yn fodelau rôl da i'r plant. Mae'r staff yn ymuno â'r plant i chwarae pan fydd yn briodol gwneud hynny, ac yn siarad â nhw'n rheolaidd er mwyn ehangu eu dysgu a chynnig profiadau cymdeithasol iddynt.

Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau a chyfleoedd ysgogol i'r plant ddysgu. Maent yn arsylwi ar y plant, felly maent yn ymwybodol o'u diddordebau a'u hanghenion unigol. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer camau datblygiad nesaf y plant ac i olrhain eu cynnydd, gan gadw cofnod o'r dyddiad y caiff sgiliau eu cyflawni. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn wybodus am eu datblygiad. Mae hyn yn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol. Mae'r staff yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn dda. Gwnaethom glywed y staff yn defnyddio geiriau ac ymadroddion syml â'r plant yn ystod amser cylch a thrwy gydol y dydd.

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae'r amgylchedd yn gynnes ac yn ddiogel. Dim ond mynediad awdurdodedig y mae'r staff yn ei ganiatáu i'r lleoliad, ac maent yn sicrhau eu bod yn cadw cofnod o bob ymwelydd. Maent yn cwblhau asesiadau risg effeithiol a chywir a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd, ynghyd â gwiriadau dyddiol o bob ardal. Mae'r staff yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch a thystysgrifau diogelwch arferol ar waith ar gyfer yr adeilad a dyfeisiau, gan gynnwys tystysgrifau yswiriant. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, ac roedd cofnodion yn cael eu cadw i ddangos hyn. Maent yn rhoi arferion rheoli heintiau effeithiol ar waith sy'n llwyddo i leihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Mae'r staff yn ymgymryd â gwaith glanhau rheolaidd, ac o ganlyniad, mae'r amgylchedd dan do yn lân ac yn ddymunol.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd dan do ac awyr agored i'r plant sy'n cynnig digon o le, sy'n addas i blant, sy'n olau ac yn llachar. Caiff yr amgylchedd dan do ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n cynnig awyrgylch cynnes a chroesawgar i'r plant o'r eiliad y byddant yn cyrraedd. Mae ffotograffau o'r plant a'u teuluoedd ac arddangosiadau deniadol yn dathlu gwaith y plant ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r ystafell wedi'i gosod i annog annibyniaeth y plant a chyfleoedd chwarae rhydd. Er enghraifft, gwelsom y plant yn cael gafael ar yr adnoddau a oedd ar gael iddynt o'r unedau storio a oedd ar uchder addas i'w taldra. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel ac yn groesawgar i'r plant. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y glaswellt wedi tyfu'n wyllt. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn mynd allan i'r ardal awyr agored bob dydd. Cawsom sicrwydd gan yr arweinwyr fod y plant yn cael mynd allan i'r ardal awyr agored fel y mynnont pan oedd y tywydd yn addas.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau ysgogol sy'n cynnig amrywiaeth a dewis i'r plant. Mae'r dodrefn, y teganau a'r cyfarpar o ansawdd da, ac yn briodol ar gyfer datblygiad y plant. Mae'r ardal awyr agored yn ardal fawr a chroesawgar lle gall y plant archwilio a dysgu am y byd o'u cwmpas, a meithrin amrywiaeth o sgiliau. Mae llawer o adnoddau sy'n briodol o ran oedran ar gael gan gynnwys ardal wedi'i chysgodi, ffrâm ddringo a llithren, a chwrs antur. Gall y plant ddefnyddio iard yr ysgol gyfagos i fynd ar eu beiciau. Mae'r staff yn sicrhau bod eitemau bywyd go iawn ac eitemau amlddiwylliannol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o gydraddoldeb ac amrywiaeth ddiwylliannol. Maent yn gwirio'r teganau, y cyfarpar a'r adnoddau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn lân ac mewn cyflwr da.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
|---|---|

Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel Maent yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn ffordd gadarnhaol ac yn awyddus i ysgogi gwelliant. Maent yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol yn drefnus a'u bod yn cael eu cadw'n gywir. Maent yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys.

Mae'r arweinwyr yn monitro ansawdd y gwasanaeth ac yn cynllunio ar gyfer gwelliannau yn effeithiol. Maent yn ceisio adborth gan rieni, y plant, y staff ac asiantaethau allanol yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i ysgrifennu adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal, ac yn defnyddio eu canfyddiadau i greu cynlluniau pwrpasol ar gyfer gwella. Er enghraifft, penodwyd Dirprwy Reolwr o ganlyniad i'r adroddiad diweddaraf ar ansawdd y gofal.

Mae'r arweinwyr yn cwblhau'r holl wiriadau cyn cyflogi perthnasol er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae ganddynt system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y staff yn gyfredol. Mae gan yr arweinwyr system ar waith i olrhain hyfforddiant gorfodol. Mae'r person â chyfrifoldeb wedi dechrau cynnal sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd gyda'r staff i drafod pryderon, materion diogelu a chyfleoedd hyfforddi. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad yw'r person â chyfrifoldeb wedi cael unrhyw sesiynau goruchwylio nac arfarniadau ffurfiol ers iddi ddechrau yn ei swydd. Er nad oes angen gweithredu ymhellach ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r Unigolyn Cyfrifol weithredu.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydberthnasau ystyrlon a chadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr. Roedd yr holl adborth a ddarparwyd gan y lleoliad a'r trafodaethau â'r rhieni yn ystod yr ymweliad yn gadarnhaol. Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydberthnasau gwaith da â gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill, er enghraifft, Mudiad Meithrin a thîm cynghori Dechrau'n Deg. Mae gan y lleoliad bartneriaeth waith gadarn â'r ysgol sy'n gweithredu o'r un lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn manteisio'n llawn ar amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael ar garreg eu drws i wella dysgu'r plant yn y byd go iawn, fel ymweliadau â'r llyfrgell, yr orsaf dân, a chyfleoedd i fynd am dro o amgylch y gymuned i'r Castell.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff, gan gynnwys y person â chyfrifoldeb, yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol rheolaidd i drafod eu lles, eu datblygiad proffesiynol, materion diogelu a'u ymarfer. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff y trafodaethau hyn eu ffurfioli a'u cofnodi er mwyn dangos eu bod wedi cael eu cynnal. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod manylion am alergeddau'r plant yn cael eu harddangos yn glir er mwyn gwneud yn siŵr bod y staff bob amser yn ymwybodol ohonynt. |
| Sicrhau bod yr ardal awyr agored yn cael ei chynnal a'i chadw'n rheolaidd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/05/2024